# Amserlen Penderfyniadau

## Panel Trwyddedu (Tacsi)

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 9 Mai 2019.**

Gwnaeth y Panel Trwyddedu Tacsis y penderfyniadau canlynol ar 8 Mai 2019, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: D Davies (Cadeirydd), H Thomas, J Cleverly, J Hughes, T Suller

**Rhan 2**

**Eitemau Eithriedig neu Gyfrinachol**

Mae'r eitemau canlynol yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Felly, nid yw adroddiadau a phapurau cefndir sy'n ymwneud â'r penderfyniadau hyn i'w cyhoeddi ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Ddeddf fel y maent yn ymwneud â chylchrediad i'r wasg a'r cyhoedd.

**LIC PAN 05/19**

**Trwyddedau Llogi Preifat / Cerbydau Hacni**

**Penderfyniad**

Rhoddodd y Panel Tacsis ystyriaeth ofalus i'r ceisiadau perthnasol a gwnaed y penderfyniadau canlynol:

Gyrrwr SA

1. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r cais o'u blaenau a phenderfynu mai prin neu ddim tystiolaeth yr oedd SA wedi'i darparu i brofi ei fod wedi newid. Nodwyd bod dau Banel Trwyddedu Tacsi blaenorol yn yr awdurdod hwn ac un mewn awdurdod cyfagos yn ogystal â dau lys apêl wedi penderfynu nad oedd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded, a'r mwyaf diweddar oedd yn 2017. Roedd y rheswm am hyn yn ymwneud â digwyddiad yn 2014 lle tarodd SA warchodwr diogelwch ar ei ffordd i godi cwsmer yn ei gerbyd hacni a arweiniodd at euogfarn am yrru heb ofal a sylw dyladwy. Nododd y Panel hefyd fod sawl cwyn arall yn ei erbyn wrth yrru ei gerbyd hacni. Roedd SA dim ond wedi gweithio mewn rhywfaint o swyddi byrdymor a gwirfoddol ers i'w drwydded gyrru cerbyd hacni gael ei dirymu yn 2014. Cytunodd y Panel â chanfyddiadau'r paneli a'r llysoedd blaenorol nad oedd SA yn berson addas a phriodol o ganlyniad i'w euogfarn a'r cwynion yn ei erbyn. Gwnaethant benderfynu hefyd, gan mai ychydig neu ddim tystiolaeth yr oedd wedi'i darparu i ddangos ei fod wedi newid yn y blynyddoedd yn y cyfamser, nad oedd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded a gwrthododd ganiatáu ei gais.

Gyrrwr AA

2. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd ger eu bron a phenderfynu y dylai AA ailsefyll y Prawf Gwybodaeth o fewn chwe mis, os na chaiff ei ailsefyll o fewn yr amser hwn, bydd ei Drwydded yn cael ei hatal.

Gyrrwr NU

3. Rhoddodd y Panel ystyriaeth ofalus i'r dystiolaeth a gyflwynwyd ger eu bron a phenderfynu y dylai NU ailsefyll y cwrs Pass Plus o fewn 8 wythnos, os yw'n methu â phasio'r Cwrs bydd ei Drwydded yn cael ei hatal. Os nad yw'n gallu archebu'r Cwrs o fewn 8 wythnos, rhaid iddo gysylltu â'r Adran Drwyddedu i ofyn am estyniad amser.

**Ymgynghoriad**

Ddim yn berthnasol.
**Gweithredir gan:** Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith